| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mai 2015** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodi Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Safonau** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Penodi dau aelod lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae'r rheoliadau llywodraethu ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau’r Cyngor angen pwyllgor sy’n cynnwys rhwng pump a naw aelod, yn cynnwys unigolion sy'n annibynnol ar y Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cyngor Tref a Chymuned. Oherwydd bod dau aelod annibynnol yn ymddeol, mae angen cael aelodau i gymryd lle'r aelodau hyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhelliad y Panel Penodiadau Arbennig ynghylch y ddau unigolyn mwyaf priodol yn eu barn nhw i eistedd fel Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Safonau yw: -

1) Anne Mellor
2) Julia Hughes

## 4. Manylion yr Adroddiad

Bydd y Cyngor Llawn yn cofio dirprwyo'r broses ddethol i Banel Penodiadau Arbennig yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2012, mae’r panel hwn yn cynnwys tri chynghorydd sir, un aelod o gyngor cymuned ac un aelod lleyg, sydd wedi cyfweld ymgeiswyr a nawr yn gwneud argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor Llawn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau sy’n gwbl weithredol a chynrychioliadol sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn cynorthwyo i ategu at weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n gosod y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau annibynnol. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod y gyfradd hon yn cael ei chynnig i aelodau annibynnol.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae'n ofyniad bod unrhyw swydd wag ar gyfer aelod annibynnol yn cael ei hysbysebu mewn o leiaf dau bapur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal.

O ran yr aelod cymunedol yn eistedd ar y Panel Penodiadau Arbennig, ymgynghorwyd â phob cyngor tref a chymuned er mwyn ystyried cyflwyno aelod o banel cymunedol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r penodiadau yn uniongyrchol.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi wrth fwrw ymlaen â'r penodiadau.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn i bob awdurdod lleol fod â Phwyllgor Safonau ar waith.